Rhan 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

Mae crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y cynnig a ffefrir wedi'i nodi isod. Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf, ac felly mae'n bosibl na fydd rhai ffigurau'n gwneud cyfanswm cywir.

Atal plant rhag yfed gormod o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein, er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl ar iechyd plant		
Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2 – Rheoliad statudol yn gwahardd gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed		
Cam: Ymgynghori	**Cyfnod arfarnu:** 2027 – 2051 (25 mlynedd)	**Blwyddyn sail brisiau:** 2025
Cyfanswm y Costau **Cyfanswm: £100.5m** **Gwerth presennol: £65.6m**	**Cyfanswm y Manteision** **Cyfanswm: £66.6m yn ogystal â manteision iechyd** **Gwerth presennol: £523.5m**	**Gwerth Presennol Net:** **£457.8m**

Cost weinyddol

Costau:

Bydd angen i wasanaethau safonau masnach yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ymgyfarwyddo â'r cyfyngiad a'i orfodi. Y gwerth a roddir ar amser swyddog yw £89.69 yr awr yn seiliedig ar arolwg gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach, y cyfeirir ato yn yr Asesiad Effaith ar gyfer Lloegr a gynhaliwyd gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU[1], sef £86.56 ym mhrisiau 2024 wedi'i ddiweddaru i brisiau 2025. Mae'n cynnwys costau cyflogaeth a gorbenion gwasanaeth ac fe'i defnyddir fel amcangyfrif o'r gost yng Nghymru.

Trosiannol – ymgyfarwyddo

Rhagdybir y bydd un swyddog ym mhob awdurdod lleol yn treulio un diwrnod gwaith o saith awr yn ymgyfarwyddo â'r gofynion.

22 awdurdod lleol × 1 swyddog × 7 awr × £89.69 = £13,800

[1] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Mehefin 2025) Impact Assessment: Banning the sale of high-caffeine energy drinks to children under the age of 16 years

Cylchol – gorfodi

Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach yn cofnodi 570 o bryniannau prawf y flwyddyn ledled Cymru a Lloegr ar gyfer cynhyrchion cymaradwy (tân gwyllt, cyllyll, gemau). Yn seiliedig ar asesiad effaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhagdybiwn y bydd y cyfyngiad yn ychwanegu traean at y gweithgarwch hwn, fel y cytunwyd gyda'r Gymdeithas. Dyrennir i Gymru ei chyfran o boblogaeth Cymru a Lloegr, sef tua 5.12%.

570 × 1/3 = 190 × 5.12% = 9.73 =10 pryniant prawf ychwanegol y flwyddyn yng Nghymru

Mae gweithio'n ôl o 10 pryniant prawf, a rhagdybiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod 10% o adroddiadau'n arwain at bryniant prawf, yn rhoi 100 o adroddiadau o ddiffyg cydymffurfio y flwyddyn. O'r adroddiadau hyn, bydd 70% yn arwain at gamau anffurfiol, a bydd 20% o bryniannau prawf yn methu. Bydd profion a fethir yn arwain at rybudd mewn 20% o achosion, at gosb benodedig mewn 60% o achosion, ac at erlyniad mewn 20% o achosion.

Adroddiadau: 100 y flwyddyn

Camau anffurfiol: 100 × 70% = 70 y flwyddyn

Profion a fethir: 10 × 20% = 2 y flwyddyn, gan roi tua 0.4 rhybudd, 1.2 cosb benodedig a 0.4 erlyniad.

Caiff cost pob gweithgaredd ei phennu drwy luosi nifer yr achosion ag amser swyddog a'r gost fesul awr, ac yna adio unrhyw gost arall fesul achos. Caiff costau cyfreithiol a chostau llys rhagdybiedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef £5,000 a £3,000, eu huwchraddio i £5,180.56 a £3,108.34 yn y drefn honno ym mhrisiau 2025.

Camau anffurfiol: 70 × 2 awr × £89.69 = £12,600

Pryniannau prawf: 10 × 2 swyddog × 3.5 awr × £89.69 = £6,300

Rhybuddion: 0.4 × 2 awr × £89.69 = £100

Cosbau penodedig: 1.2 × 4 awr × £89.69 = £400

Erlyniadau awdurdod lleol: 0.4 × (14 awr × £89.69 + £5,180.56) = £2,600

Costau llys GLITEF: 0.4 × £3,108.34 = £1,200

Cyfanswm y costau gorfodi = £23,200 y flwyddyn

Amcangyfrifon wedi'u modelu ar sail cyfran Cymru o'r boblogaeth yw'r niferoedd achosion hyn, nid gweithgarwch gorfodi a welwyd yng Nghymru ar gyfer diodydd egni. Trosglwyddiadau yw derbyniadau o gosbau penodedig ac ni chânt eu cyfrif fel cost.

Trosiannol: £0.01m	**Cylchol: £0.02m y flwyddyn**	**Cyfanswm: £0.59m**	**Gwerth presennol: £0.41m**
Arbedion costau: *Amh.*			
Trosiannol: £0	**Cylchol: £0**	**Cyfanswm: £0**	**Gwerth presennol: £0**
Cost weinyddol net: £0.59m			

Costau Cydymffurfio

Costau Trosiannol – Ymgyfarwyddo

Mae llawer o fanwerthwyr eisoes yn gweithredu cyfyngiad gwirfoddol ar werthu diodydd egni i blant o dan 16 oed. Gan ddefnyddio'r un rhagdybiaeth ag Asesiad Effaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhagdybir bod busnesau sydd â chyfyngiad gwirfoddol yn mynd i hanner y gost baratoi arferol. Rhagdybiaethau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw bod gan 79% o fusnesau manwerthu ac 84% o siopau gyfyngiad gwirfoddol yn barod, yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae cymhwyso dull yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol at niferoedd y siopau a busnesau yng Nghymru yn rhoi 79.0% o fusnesau ac 83.8% o siopau, sef yr un faint â Lloegr i bob pwrpas (Atodiad A, Tabl A9).

Ar y sail hon, bydd y 79% o fusnesau yng Nghymru sy'n gweithredu gwaharddiad gwirfoddol yn mynd i hanner y gost o gymharu â phe baent yn dechrau gwaharddiad o ddim. Rhagdybir yr un peth ar gyfer siopau a staff (84%).

(79% × hanner cost) + (21% × cost lawn) = 60.5% o'r gost baratoi lawn.

(84% × hanner cost) + (16% × cost lawn) = 58% o'r gost baratoi lawn.

Y ffactor cost lefel busnes sy'n deillio o hynny yw 60.5% a'r ffactor lefel siop a staff yw 58%. Yn 2027 yr eir i'r holl gostau trosiannol.

Manwerthu

Bydd angen i fanwerthwyr baratoi canllawiau a labeli silffoedd, hyfforddi staff a diweddaru systemau man gwerthu electronig. Rhagdybir bod 79% o fusnesau a staff manwerthu yn defnyddio systemau man gwerthu electronig yn seiliedig ar Adroddiad Siopau Lleol 2025 Cymdeithas y Siopau Cyfleustra (ACS). Bydd angen i staff sydd â chyfleuster atgoffa ar system man gwerthu electronig gael 30 munud o hyfforddiant a bydd angen i'r rhai sydd heb gyfleuster o'r fath gael awr o hyfforddiant.

Mae tasgau prif swyddfa'n defnyddio cost lefel busnes fesul awr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i diweddaru i £27.07 ym mhrisiau 2025. Y gwerth a roddir ar staff siopau yw £14.53 yr awr, a'r gwerth a roddir ar yrwyr danfon nwyddau yw £14.88 yr awr yn seiliedig ar gyflogau Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2025 Cymru, yn ogystal â lwfans o 19% ar gyfer costau cyflogaeth nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau yn seiliedig ar asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Daw niferoedd staff o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth ar gyfer Cymru (2024, sef y diweddaraf sydd ar gael). Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn gwneud cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu.

Canllawiau: 2,045 × 2 awr × £27.07 × 60.5% = £67,000

Canllawiau, manwerthwyr ar-lein yn unig: rhagdybir na fydd cost yng Nghymru gan fod hyn yn cael ei wneud ar wahân ar lefel y DU

Creu labeli silffoedd: 2,045 × 2 awr × £27.07 × 60.5% = £67,000

Gosod labeli silffoedd: 3,503 × 1 awr × £14.53 × 58% = £29,600

Hyfforddiant staff gan gynnwys mannau gwerthu electronig: 60,975 o staff × 79% × 0.5 awr × £14.53 × 58% = £203,400

Hyfforddiant staff heb gynnwys mannau gwerthu electronig: 60,975 × 21% × 1 awr × £14.53 × 58% = £108,100

Gyrwyr danfon nwyddau groser: 132,000 o yrwyr yn y DU × 4.57% × 32% × 0.5 awr × £14.88 = £14,400 (yn seiliedig ar gyfran Cymru o boblogaeth y DU gan y bydd gyrwyr yn drawsffiniol)

Diweddaru mannau gwerthu electronig: 2,045 × 79% × (10 / 60) awr × £27.07 × 60.5% = £4,400

Cyfanswm y costau trosiannol ar gyfer manwerthu = £493,800.

Busnesau bach a micro: y gost untro gyfartalog ar gyfer manwerthu yw tua £100 fesul microfusnes a £253 fesul busnes bach. Microfusnesau yw 87% o'r busnesau manwerthu sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, a byddant yn talu 36% o'r gost untro ar gyfer manwerthu.

Ar-lein

Nid oes cost ychwanegol ar gyfer Cymru wedi'i chynnwys ar gyfer rhannu gwybodaeth ar-lein na gwneud newidiadau i systemau TG. Mae'r asesiad yn rhagdybio y bydd manwerthwyr sy'n gwasanaethu Cymru, erbyn i'r cyfyngiad ar gyfer Cymru ddod i rym, wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol ar systemau ar gyfer Lloegr ac y bydd yr un systemau'n berthnasol i werthiannau yng Nghymru. Mae hyn yn dibynnu ar ofynion sy'n ddigon cyson â'i gilydd. Byddai angen asesu costau ychwanegol pe bai'r gofynion yng Nghrymu'n wahanol neu pe bai angen i fanwerthwyr wneud gwaith ar wahân ar gyfer Cymru.

Rhannu gwybodaeth ar-lein: £0

Newidiadau i systemau TG ar-lein: £0

Cyfanswm costau trosiannol ar gyfer manwerthu a gwerthu ar-lein: £493,800

Oddi allan i'r cartref

Rhagdybir y bydd angen i fwytai, caffis, siopau cludfwyd, tafarndai, cyfleusterau chwaraeon ac atyniadau i ymwelwyr sy'n gwerthu diodydd egni gael canllawiau, hyfforddiant staff, diweddariadau i systemau man gwerthu electronig, ac arwydd. Rhagdybiwn y bydd angen dwy awr rheolwr ar gyfer canllawiau ac un arwydd a fydd yn costio tua £4.14 ar gyfer pob busnes. Bydd angen i staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd gael 30 munud o hyfforddiant lle y defnyddir man gwerthu electronig, ac awr fel arall. Bydd angen 10 munud ar bob busnes sy'n defnyddio system man gwerthu electronig i ddiweddaru ei system.

Y costau cyflogaeth fesul awr yw £16.59 ar gyfer rheolwyr bwytai ac arlwyo, £18.10 ar gyfer tafarnwyr, £14.53 ar gyfer staff gweini ac aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd, a £14.55 ar gyfer staff bar. Mae'r rhain yn seiliedig ar gyfraddau ASHE Cymru, heblaw tafarnwyr, lle y defnyddir cyfradd ar gyfer y DU am nad oes ffigur addas ar gael ar gyfer Cymru. Mae gan Gymru ychydig bach yn fwy o unedau lleol oddi allan i'r cartref nag y byddai ei chyfran o'r boblogaeth yn ei awgrymu: 5.7% o'r nifer yn Lloegr o gymharu â chyfran o 5.4% o'r boblogaeth. Mae ei chyfran yn uwch ar gyfer unedau micro (5.9%) nag unedau mawr (2.7%, yn seiliedig ar bum uned yng Nghymru). O ran cyflogaeth, mae Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth yn gosod Cymru ar tua 5% o Loegr. At ei gilydd, rydym yn cymhwyso cyfran o 5.4% o'r boblogaeth at ffigurau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Lloegr[2].

[2] SYG: Niferoedd Busnesau yn y DU 2025 (unedau lleol) ac Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2024, drwy Nomis.

Cost y sector = 5.40% × [(busnesau × 2 awr × cyfradd rheolwr) + (staff sydd â system man gwerthu electronig × 0.5 awr + aelodau eraill o staff × 1 awr) × cyfradd staff + (busnesau sydd â system man gwerthu electronig × (10 / 60) awr × cyfradd staff) + (busnesau × cost arwydd)]

Bwytai trwyddedig: £163,200

Bwytai didrwydded a chaffis: £22,400

Siopau cludfwyd a stondinau bwyd symudol: £187,800

Tafarndai a bariau: £23,800

Cyfleusterau chwaraeon: £14,100

Atyniadau i ymwelwyr a sinemâu: £1,000

Cyfanswm oddi allan i'r cartref = £412,500

Peiriannau gwerthu

Mae'r model yn rhagdybio y caiff diodydd egni eu tynnu allan o beiriannau gwerthu. Bydd angen i weithredwyr friffio rheolwyr, rhannu cyfarwyddiadau â safleoedd cleientiaid a chynllunio stoc amgen. Mae'r gwerth a roddir ar reolwyr peiriannau gwerthu yn seiliedig ar gyfradd asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i diweddaru i £20.49 yr awr ym mhrisiau 2025. Mae'r gwerth a roddir ar staff stoc yn seiliedig ar y gost cyflogaeth rheoli stoc ar gyfer Cymru, sef £17.68 yr awr. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfran Cymru o boblogaeth Lloegr.

Ymgyfarwyddo ymhlith rheolwyr: 211 o fusnesau × 5.40% × 1 awr × £20.49 = £200

Rhannu gwybodaeth: 47,748 o safleoedd cleientiaid × 5.40% × [(2 awr × £20.49) + (0.5 awr × £17.68)] = £128,400

Ailgynllunio stoc: (47,748 / 2 safle fesul rheolwr stoc) × 5.40% × 18.25 awr × £17.68 = £415,800

Cyfanswm peiriannau gwerthu = £544,400

Cyfanswm y costau trosiannol i fusnesau = £1,450,700

Costau Parhaus – Gwirio Manylion Adnabod

Bydd angen i staff wirio oedran cwsmeriaid ifanc sy'n ceisio prynu diodydd sydd dan gyfyngiadau. Gan ddilyn rhagdybiaethau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, defnyddir lefelau defnydd plant i amcangyfrif y gwiriadau ychwanegol, gan gynnwys gwiriadau ar gyfer cwsmeriaid rhwng 16 a 25 oed. Procsi yw hyn yn hytrach na mesur uniongyrchol ar gyfer trafodiadau neu weithgarwch Herio 25 yng Nghymru.

Caiff plant sy'n yfed diodydd egni bob mis ond nid bob wythnos eu cyfrif ar wahân i'r defnyddwyr wythnosol. Caiff pob diod ei thrin fel un trafodiad. Mae didyniad o 23% yn cynrychioli'r gyfran ragdybiedig a brynir drwy bobl eraill oddi wrth fanwerthwyr sydd eisoes yn gweithredu cyfyngiad gwirfoddol.

Mae 224,809 o blant rhwng 10 a 15 oed yng Nghymru (canol 2024). Yn seiliedig ar gyfraddau defnydd asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (15.7% yn yfed bob wythnos, 3.12 diod yr wythnos; 12.6% yn yfed bob mis, 2.87 diod y mis), maent yn yfed tua 6.70m o ddiodydd egni y flwyddyn. Ar ôl y didyniad o 23%, bydd angen gwirio oedran ar gyfer 5.16m o drafodiadau y flwyddyn.

Rhagdybir y bydd pob gwiriad yn cymryd munud, a rhoddir gwerth ar hynny yn seiliedig ar gost cyflogaeth derbynnydd arian yng Nghymru, sef £14.53 yr awr.

Cost flynyddol gwirio oedran: 5.16 miliwn o wiriadau × (1 / 60) awr × £14.53 = £1,249,700

Caiff nifer y gwiriadau a'r gost fesul gwiriad eu cadw'n gyson mewn termau real drwy gydol 2027-2051.

Costau Parhaus – Hyfforddi staff newydd

Bydd angen i yrwyr danfon nwyddau newydd ac aelodau newydd o staff sy'n ymwneud â chwsmeriaid mewn rhai busnesau oddi allan i'r cartref gael hyfforddiant, yn seiliedig ar drosiant staff rhagdybiedig o 18% y flwyddyn. Gan ddilyn rhagdybiaethau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nid oes costau cylchol ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer hyfforddi staff siopau, bwytai trwyddedig na thafarndai, lle y rhagdybir bod y gweithdrefnau presennol ar gyfer gwerthu cynhyrchion â chyfyngiad oedran yn berthnasol i aelodau newydd o staff.

Gyrwyr danfon nwyddau newydd: 132,000 × 4.57% × 32% × 18% × 0.5 awr × £14.88 = £2,600 y flwyddyn

Staff oddi allan i'r cartref newydd: Staff yn Lloegr × 5.40% × 18% × amser hyfforddi × £14.53.

Bwytai didrwydded a chaffis: £2,900 y flwyddyn

Siopau cludfwyd: £20,200 y flwyddyn

Cyfleusterau chwaraeon: £2,000 y flwyddyn

Atyniadau i ymwelwyr: £200 y flwyddyn

Cyfanswm ar gyfer hyfforddi staff oddi allan i'r cartref newydd = £25,300 y flwyddyn

Cyfanswm y costau cydymffurfio parhaus = £1,249,700 + £2,600 + £25,300 = £1,277,600 y flwyddyn

Bydd y costau hyn yn aros yn gyson mewn termau real drwy'r cyfnod arfarnu. Cyfanswm y costau cydymffurfio parhaus fydd £31.94m heb eu disgowntio, neu £21.79m mewn gwerth presennol.

Trosiannol: £1.45m	**Cylchol: £1.28m y flwyddyn**	**Cyfanswm: £33.4m**	**Gwerth presennol: £23.2m**

Costau Eraill

Mae'r model yn amcangyfrif y bydd manwerthwyr a gwneuthurwyr diodydd egni yn colli elw yn sgil lleihad mewn gwerthiannau i blant o dan 16 oed. Mae'n cyfrifo maint yr elw a gollir ar y gwerthiannau hyn, yn hytrach na thrin gwerth llawn y gwerthiannau fel cost.

Cydnabyddir y bydd gwaharddiad ar werthu diodydd egni uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed yn golygu y bydd manwerthwyr yn colli gwerthiannau ac y bydd gwneuthurwyr yn colli elw. Fodd bynnag, mae'n debygol y caiff y colledion hyn eu disodli gan bryniannau diodydd eraill yn eu lle. Nid yw'n hysbys ble mae plant yng Nghymru yn prynu diodydd egni. Mae data Nielsen yn dangos bod siopau groser symbol yn cymryd 29% o werthiannau diodydd egni yng Nghymru ond dim ond 5% o werthiannau siopau groser, felly tua chwe gwaith yn fwy na'u cyfran o werthiannau siopau groser (Atodiad B, Tabl B2). Mae'r siopau llai hyn yn llai tebygol o weithredu'r cyfyngiad gwirfoddol a ddefnyddir gan y busnesau mawr.

Ar lefel yr economi, cytunwn â rhagdybiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd gwerthiannau diodydd egni sy'n uchel mewn caffein eu disodli gan bryniannau diodydd meddal pefriog neu nwyddau eraill o'r un gwerth, naill ai yn y sector manwerthu neu mewn rhannau eraill o'r economi. Bydd hyn yn golygu na fydd colled net i'r economi yn gyffredinol.

Fodd bynnag, bydd ailddosbarthu gwariant yn arwain at effeithiau anghyfartal rhwng sectorau, a bydd manwerthwyr a gwneuthurwyr diodydd egni sy'n uchel mewn caffein yn wynebu lleihad mewn gwerthiannau. Mae amcangyfrif o'r lleihad hwn mewn elw i fanwerthwyr a gwneuthurwyr

diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i'w weld isod. Mae amcangyfrif o'r cynnydd mewn elw i wneuthurwyr diodydd/nwyddau amgen wedi'i gofnodi yn adran manteision y tabl hwn.

Trosiannol: £0	**Cylchol: £1.5m yn 2027 gan godi 4.5% y flwyddyn**	**Cyfanswm: £66.6m**	**Gwerth presennol: £42.0m**

Costau a manteision heb eu meintioli

Ni roddir gwerth ariannol ar effeithiau sy'n gysylltiedig â chaffein ar gwsg, iechyd meddwl, addysg a llesiant. Mae'r dystiolaeth yn dangos cysylltiadau rhwng yfed diodydd egni a chanlyniadau niweidiol, ond nid yw'n cadarnhau effaith achosol y cyfyngiad arfaethedig yng Nghymru nac yn cynnig sail ddigonol ar gyfer pennu costau'r effeithiau hyn.

Defnyddir lefelau defnydd plant fel procsi ar gyfer gwiriadau oedran ychwanegol, gan gynnwys gwiriadau ar gyfer cwsmeriaid rhwng 16 a 25 oed. Nid yw'r model yn amcangyfrif nifer na hyd gwiriadau Herio 25 yng Nghymru ar wahân.

Nid oes cost wedi'i chynnwys ar gyfer rhannu gwybodaeth ar-lein na datblygu TG yng Nghymru. Mae'r asesiad yn rhagdybio y bydd manwerthwyr sy'n gwasanaethu Cymru, erbyn i'r cyfyngiad ar gyfer Cymru ddod i rym, wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol ar systemau ar gyfer Lloegr ac y bydd yr un systemau'n berthnasol i werthiannau yng Nghymru. Mae hyn yn dibynnu ar ofynion sy'n ddigon cyson â'i gilydd. Byddai angen asesu costau ychwanegol pe bai'r gofynion yng Nghrymu'n wahanol neu pe bai angen i fanwerthwyr wneud gwaith ar wahân ar gyfer Cymru.

Bydd gwahardd gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed yn arwain at leihad yn eu gwarged defnyddwyr, a dim ond yn rhannol y caiff hyn ei wrthbwyso gan ddefnydd o ddiodydd meddal pefriog neu gynhyrchion eraill.

Manteision

Cynnydd mewn elw i wneuthurwyr cynhyrchion nad ydynt yn ddiodydd egni

Mae'r model yn rhagdybio y bydd 90% o'r gwariant na fydd yn mynd ar ddiodydd egni mwyach yn symud i ddiodydd meddal pefriog gan yr un manwerthwr a 10% yn symud i rywle arall. Gwneuthurwyr diodydd meddal pefriog fydd yn ennill yr elw ar y gwerthiannau amgen hyn. Rhagdybir y bydd y fantais net yn sero ar lefel yr economi, ond caiff hyn ei gynnwys yn y model fel cost ac fel mantais.

Manteision Iechyd

Mae'n bosibl y bydd y polisi'n lleihau cymeriant siwgr a chalorïau lle y bydd plant yn rhoi'r gorau i yfed diodydd egni sydd â siwgr ynddynt neu'n newid i opsiynau amgen sy'n is mewn calorïau. Mae'r model yn rhoi gwerth ariannol ar yr effaith hon sy'n gysylltiedig â chalorïau gan ddefnyddio asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Lloegr, sy'n dibynnu

ar Fodel Calorïau'r Adran[3]. Nid yw'n rhoi gwerth ariannol ar yr effeithiau uniongyrchol ar iechyd yn sgil defnyddio llai o gaffein.

Mae'r amcangyfrif canolog yn rhagdybio lleihad o 3.41 cilocalori y dydd fesul plentyn ar gyfartaledd. Mae manteision asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u graddio yn seiliedig ar 533,900 o blant rhwng 0 a 15 oed yng Nghymru o gymharu â 10,531,400 o blant rhwng 0 a 15 oed yn Lloegr (5.07%). Yn absenoldeb cyfradd defnydd wythnosol ar gyfer Cymru, mae'r model yn cymhwyso'r gyfradd ar gyfer Lloegr.

Y fantais iechyd enghreifftiol ganolog ar gyfer Cymru yw £481.5m mewn gwerth presennol ym mhrisiau 2025 dros gyfnod arfarnu 100 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwerth ariannol blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd: £405.5m mewn gwerth presennol
- Arbedion i'r GIG: £6.7m mewn gwerth presennol
- Arbedion gofal cymdeithasol: £4.4m mewn gwerth presennol
- Cynnydd mewn allbwn economaidd: £64.9m mewn gwerth presennol

Y canlyniad iechyd cyfatebol yw ennill tua 5,577 o flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd. Mae eu gwerth ariannol yn cynrychioli gwell iechyd a llesiant yn hytrach na derbyniad arian parod neu arbediad i gyllideb y GIG.

Mae'r senarios lleihad is ac uwch mewn calorïau yn rhoi manteision enghreifftiol o £414.7m a £602.2m mewn gwerth presennol. Os na fydd y lleihad mewn calorïau'n parhau ar ôl i unigolion dyfu'n oedolion, bydd y fantais a amcangyfrifir yn gostwng i £304.3m mewn gwerth presennol. Senarios sensitifrwydd yw'r rhain, nid cyfyngau hyder.

Mae'r amcangyfrifon yn cadw cyfnod arfarnu 100 mlynedd a sail gwerth presennol asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Caiff blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd ac arbedion y GIG eu disgowntio ar gyfradd o 1.5%; caiff arbedion gofal cymdeithasol ac allbwn economaidd eu disgowntio ar gyfradd o 3.5%. Nid canlyniad rhediad model calorïau ar wahân ar gyfer Cymru yw'r amcangyfrif, ac mae'n dibynnu ar dystiolaeth ynghylch defnydd ac iechyd o Loegr.

Mae'r model presennol yn cynnwys y fantais iechyd enghreifftiol mewn gwerth cymdeithasol net a'r gymhareb costau a manteision. Mae'r driniaeth hon yn golygu y caiff manteision iechyd eu hasesu dros 100 mlynedd, wrth i werthiannau a gaiff eu hatal yn ystod y cyfnod arfarnu 25 mlynedd arwain at fanteision iechyd yn y tymor hwy.

£66.6m yn ogystal â manteision iechyd			**Cyfanswm mewn gwerth presennol: £523.5m (enillion o £42m yn sgil gwariant amgen + manteision iechyd gwerth £481.5m)**

Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Mae'r asesiad yn defnyddio'r dulliau a'r rhagdybiaethau sydd yn yr asesiad effaith a gynhaliodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2025 ar gyfer Lloegr fel sail. Caiff data

[3] https://www.gov.uk/government/publications/department-of-health-and-social-care-dhsc-calorie-model

ar boblogaeth, niferoedd busnesau, cyflogaeth a chyflogau yng Nghymru eu defnyddio lle y bônt ar gael o ffynonellau swyddogol megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Lle nad oes niferoedd ar gael ar gyfer Cymru, caiff gwerthoedd ar gyfer Lloegr, Cymru a Lloegr neu'r DU eu graddio gan ddefnyddio'r gymhareb gyfatebol ar gyfer y boblogaeth ar ganol 2025 fel y gwelir isod.

Niferoedd Lloegr: 3,175,181 / 58,834,812 = 5.4%

Niferoedd Cymru a Lloegr, gan gynnwys gorfodi: 3,175,181 / 62,009,993 = 5.12%

Niferoedd y DU, gan gynnwys gyrwyr danfon nwyddau: 3,175,181 / 69,483,939 = 4.57%

Niferoedd Prydain Fawr (siopau cyfleustra ACS, Atodiad A): 3,175,181 / 67,555,493 = 4.70%

Mae'r holl brif ganlyniadau ariannol ym mhrisiau blwyddyn galendr 2025. Caiff mewnbynnau ariannol asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhrisiau 2024 eu diweddaru unwaith gan ddefnyddio cyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros mis Mehefin 2026:

gwerth 2025 = gwerth 2024 × (100 / 96.5146) = gwerth 2024 × 1.036

Caiff cyflogau canolrifol fesul awr ASHE mis Ebrill 2025 eu defnyddio i amcangyfrif cyflogau 2025. Mae'r model yn ychwanegu 19% ar gyfer costau cyflogaeth nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, gan ddilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Caiff cyflogau Cymru eu defnyddio lle y bônt ar gael, neu ffigurau amgen ar gyfer y DU/Lloegr/Cymru a Lloegr, e.e. swyddogion safonau masnach. Caiff cyfraddau penodedig o asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer busnesau a gwasanaethau eu cadw lle y cânt eu defnyddio yn y model.

Caiff costau ac effeithiau gwariant amgen eu hasesu dros 25 mlynedd, o 2027 tan 2051. Cânt eu disgowntio ar gyfradd o 3.5% i sail gwerth presennol 2027. Ni chaiff y flwyddyn gyntaf ei disgowntio. Rhagdybiaeth modelu yw'r amserlen ac nid yw'n cadarnhau pryd y byddai'r cyfyngiad yn dechrau yng Nghymru. Caiff manteision iechyd eu disgowntio ar gyfraddau o 1.5% (blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd ac arbedion y GIG) a 3.5% (allbwn economaidd a gofal cymdeithasol).

Yn 2027 yr eir i'r costau paratoi untro. Bydd costau gorfodi, costau hyfforddi cylchol a chostau gwirio oedran yn aros yn gyson mewn termau real. Caiff niferoedd gwiriadau oedran eu cadw ar yr un lefel â'r flwyddyn gyntaf. Nid yw'r twf blynyddol o 4.51% a ddefnyddir yn y cyfrifiad ar gyfer gwiriadau oedran yn Lloegr wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer Cymru.

Mae'r farchnad a ddefnyddir i gyfrifo'r elw a gollir gan fusnesau a'r enillion yn sgil gwariant amgen yn ennill 4.51% mewn termau real gan ddilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r colledion a'r enillion yn tyfu ar yr un gyfradd, felly maent yn dal i wrthbwyso ei gilydd.

Mae gwiriadau oedran yn cyfrif am £21.3m mewn gwerth presennol. Mae'r cyfrifiad yn rhagdybio un ddiod fesul trafodiad, un munud fesul gwiriad a didyniad o 23% ar gyfer pryniannau sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau gwirfoddol sydd eisoes ar waith. Defnyddir lefelau defnydd plant fel procsi ar gyfer gwiriadau sydd hefyd yn effeithio ar gwsmeriaid hŷn. Mae'n bosibl bod y costau wedi cael eu hamcangyfrif yn rhy uchel, ond nid oes digon o dystiolaeth i allu penderfynu ar gywiriad trachywir.

O gadw'r rhagdybiaethau eraill yr un fath, bydd lleihau hyd gwiriad i 30 eiliad yn lleihau'r gost net mewn gwerth presennol i tua £13m. Bydd ei gynyddu i ddau funud yn codi'r gost net mewn gwerth presennol i £45m. Ni chaiff senarios dim twf ac atal twf ar gyfer gwiriadau oedran eu cyflwyno ar wahân am fod niferoedd gwiriadau oedran yn cael eu cadw'n gyson yn yr achos canolog.

Y gost a bennir ar gyfer rhannu gwybodaeth ar-lein a newidiadau TG yw £0 (gweler tudalen 4). Mae'r asesiad yn rhagdybio y bydd manwerthwyr sy'n gwasanaethu Cymru, erbyn i'r cyfyngiad ar gyfer Cymru ddod i rym, wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol ar systemau ar gyfer Lloegr ac y bydd yr un systemau'n berthnasol i werthiannau yng Nghymru.

Mae'r amcangyfrif ar gyfer gorfodi yn rhagdybio 10 pryniant prawf ychwanegol yng Nghymru bob blwyddyn, cyfradd methu o 20% ac erlyniad yn dilyn 20% o'r profion a fethir yn seiliedig ar ddata ar gyfer Cymru a Lloegr gan wasanaethau safonau masnach. Mae niferoedd y pryniannau prawf wedi'u talgrynnu. Mae niferoedd achosion eraill wedi'u cadw ar ffurf ffracsiynau.

Mae'r elw a gollir a'r enillion mewn rhannau eraill o'r economi yn seiliedig ar ychwanegiad cyffredin o 53% at y gost, sy'n gyfwerth ag elw o 34.64% ar y pris gwerthu. Mae'r model yn rhagdybio y bydd yr holl wariant amgen yn aros yn yr economi, wrth i 90% symud i ddiodydd meddal pefriog gan yr un manwerthwyr a 10% i rywle arall. Caiff yr un rhagdybiaethau ynghylch maint yr elw eu cymhwyso at weithgarwch amnewid.

Mae'r effaith fusnes sero net yn dilyn y rhagdybiaethau ynghylch gwariant ar gynhyrchion amgen a'r elw cysylltiedig. Nid canlyniad a welwyd yw hwn. Gall profion sensitifrwydd amrywio ychwanegiadau, pryniannau procsi a gwariant amgen, tra bo'r cyfrifiad canolog yn cadw'r farchnad yn gyson mewn termau real ac yn rhagdybio y bydd yr enillion yn gwrthbwyso'r colledion.

Mae'r asesiad yn dangos £42m mewn gwerth presennol o elw a gollir yng nghyfanswm y costau a £42m mewn gwerth presennol o enillion yng nghyfanswm y manteision. Mae'r effeithiau busnes gros hyn yn gwrthbwyso ei gilydd, gan adael cost net o £23.7m mewn gwerth presennol. Mae'r ychwanegiad cyffredin o 53% yn amodol o hyd. Mae'n bosibl bod y cyfansymiau a ddangosir fymryn yn wahanol i'r symiau cyfansoddiadol am fod y cyfrifiadau'n defnyddio mewnbynnau heb eu talgrynnu tra bo'r symiau cryno wedi'u talgrynnu.

Mae'r opsiwn wedi'i gostio'n cynnwys gwerthiannau manwerthu, ar-lein ac oddi allan i'r cartref ac yn rhagdybio y caiff diodydd egni sy'n uchel mewn caffein eu tynnu allan o beiriannau gwerthu yn gyfan gwbl.

Manteision Lleihau Calorïau a Siwgr:

Gallai peidio ag yfed diodydd egni sy'n cynnwys siwgr a throi at gynhyrchion sy'n is mewn siwgr yn eu lle leihau cymeriant calorïau ac afiechyd cysylltiedig. Mae'r effaith yn dibynnu ar ba gynhyrchion a ddisodlir, pa opsiynau amgen a ddewisir, a pha mor hir y bydd newidiadau mewn defnydd yn para.

Mae'r enghraifft iechyd ganolog yn defnyddio'r rhagdybiaeth ar gyfer Lloegr o leihad o 3.41 cilocalori y dydd fesul plentyn. Mae'n graddio'r canlyniadau cyhoeddedig ar gyfer Lloegr yn

ôl nifer y plant 0-15 oed, gan roi mantais enghreifftiol o £481.5m mewn gwerth presennol ym mhrisiau 2025 dros 100 mlynedd.

Nid oes gwerth ariannol wedi cael ei roi ar fanteision deintyddol na manteision sy'n gysylltiedig â chaffein. Mae'r enghraifft iechyd yn cymryd y canlyniadau ar gyfer Lloegr a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn eu graddio ar gyfer plant yng Nghymru. Nid rhediad model calorïau ar wahân ar gyfer Cymru mohono.

Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae Ardoll y Diwydiant Diodydd Meddal wedi cynyddu prisiau manwerthu diodydd egni sy'n cynnwys siwgr. Mae hyn wedi lleihau'r defnydd ohonynt yn rhannol. Fodd bynnag, ni fydd yn rhoi terfyn ar ddefnydd o ddiodydd egni sy'n cynnwys siwgr, ac mae gan y farchnad lawer o ddiodydd egni heb siwgr sy'n cynnwys lefelau uchel o gaffein a symbylyddion eraill o hyd.

Yn sgil sylw yn y cyfryngau ac ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, mae pob archfarchnad fawr wedi cytuno i wahardd gwerthu diodydd sy'n cynnwys mwy na 150mg o gaffein fesul litr i blant o dan 16 oed. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd llawer o fanwerthwyr annibynnol yn dewis peidio â gweithredu cyfyngiad gwirfoddol ar werthiannau. Mae data Nielsen (Atodiad B) yn dangos bod y manwerthwyr hyn 600% yn uwch na'r mynegai ar gyfer gwerthiannau diodydd egni yng Nghymru. Gan fod llawer o fanwerthwyr mawr bellach wedi ymrwymo i'r gwaharddiad, credwn fod gweithredu gwirfoddol wedi dod mor bell ag y byddai'n ddichonadwy ei ddisgwyl.

Disgwylir i waharddiad statudol ddod i rym yn Lloegr o fis Ebrill 2027 ymlaen, yn amodol ar waith craffu Seneddol. Byddai gwneud dim yng Nghymru yn gadael rheolau gwahanol y naill ochr a'r llall i'r ffin, ac yn parhau i ganiatáu i blant o dan 16 oed yng Nghymru gael gafael ar ddiodydd sy'n cynnwys lefelau uchel o gaffein, gan olygu na chaiff amcan y polisi ei gyflawni.

Opsiwn 2: Rheoliad statudol yn gwahardd gwerthu i blant o dan 16 oed

At ddibenion pennu costau, mae'r opsiwn hwn yn cynnwys gwahardd gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed drwy ddulliau manwerthu, ar-lein ac oddi allan i'r cartref, ynghyd â thynnu'r diodydd hyn allan o beiriannau gwerthu yn gyfan gwbl. Ei nod yw cyfyngu ar allu plant o dan 16 oed i gael gafael ar y diodydd hyn a'u hyfed. Bydd y graddau y gellir cyflawni'r nod hwn yn dibynnu ar gydymffurfiaeth, pryniannau procsi a'r cynhyrchion amgen a ddewisir. Rhaid i'r polisi terfynol yng Nghymru gyfateb i'r cwmpas a ddefnyddir yn yr asesiad hwn.

Mae manwerthwyr sydd eisoes wedi rhoi gwaharddiadau gwirfoddol ar waith wedi defnyddio'r trothwy oedran 16 oed, felly byddai mabwysiadu'r terfyn oedran hwn ar gyfer gwaharddiad statudol yn golygu y gallai'r manwerthwyr hyn barhau i ddefnyddio prosesau sydd eisoes yn bodoli i gydymffurfio ag ef. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r cyfyngiad yn Lloegr.

Byddai'r opsiwn polisi hwn yn cael effaith ar fusnesau drwy gostau paratoi untro, yr amser staff y byddai ei angen i gynnal gwiriadau oedran, a cholli gwerthiannau, heb gynnwys y gweithredu gwirfoddol sydd eisoes yn digwydd. Rydym wedi ystyried hyn gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

Opsiwn 3: Rheoliad statudol yn gwahardd gwerthu i blant o dan 18 oed

Dylem ystyried beth yw'r oedran priodol ar gyfer gwahardd diodydd egni. Gwaherddir gwerthu rhai sylweddau eraill sydd dan gyfyngiadau, megis alcohol a thybaco, i bobl o dan 18 oed.

Mae Latfia a Lithwania eisoes wedi gwahardd gwerthu diodydd egni i blant ac wedi defnyddio 18 oed fel terfyn oedran.

Gallai ymestyn y cyfyngiad i 18 oed gynyddu costau cydymffurfio, ond gall gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli leihau'r gwaith ychwanegol a fyddai'n ofynnol. Nid yw'r opsiwn hwn wedi cael ei feintioli yn y model presennol.

Opsiynau Amgen a Ystyriwyd

Yn ychwanegol at yr opsiynau polisi sydd dan ystyriaeth yn yr Asesiad Effaith hwn, mae sawl opsiwn arall i gyflawni amcanion y polisi wedi cael eu hystyried a heb gael eu meintioli. Mae'r tabl isod yn nodi'r ystyriaeth a roddwyd i'r opsiynau amgen hyn. Byddwn yn ystyried tystiolaeth o'r ymgynghoriad ac yn asesu p'un a fydd angen ailystyried y rhain a'u meintioli'n llawn ar y cam terfynol.

Opsiwn	Ystyriaeth
Isafswm pris ar gyfer diodydd egni sy'n cynnwys 150mg/l o gaffein neu fwy	• Byddai hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr o bob oed, yn hytrach na phlant yn unig. Gellid ystyried bod yr effaith ar oedolion yn anghymesur o ystyried mai amcan y polisi yw cyfyngu ar ddefnydd plant o'r diodydd hyn • Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfyngu ar y defnydd ymhlith plant ac felly ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â mater lefelau uchel o ddefnydd a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd ymhlith plant
Ardoll ar ddiodydd egni sy'n cynnwys 150mg/l o gaffein neu fwy	• Mae diodydd egni sy'n cynnwys siwgr ychwanegol eisoes o fewn cwmpas Ardoll y Diwydiant Diodydd Meddal a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2018. Nod yr Ardoll yw cynnig cymhelliant i ailfformiwleiddio diodydd er mwyn lleihau faint o siwgr sydd ynddynt • Byddai ardoll caffein yn effeithio ar ddefnyddwyr o bob oed, yn hytrach na phlant yn unig. Gellid ystyried bod yr effaith ar oedolion yn anghymesur o ystyried mai amcan y polisi yw cyfyngu ar ddefnydd plant o'r diodydd hyn • Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfyngu ar y defnydd ymhlith plant ac felly ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â mater lefelau uchel o ddefnydd a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd ymhlith plant

Opsiwn	Ystyriaeth
Maint cyfyngedig i ddognau unigol o ddiodydd egni	• Nid yw maint y can yn arwydd o lefel y caffein sydd yn y cynnyrch. Mae'n bosibl y bydd crynodiadau uchel o gaffein mewn caniau bach o hyd • Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfyngu ar y defnydd ymhlith plant ac felly ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â mater lefelau uchel o ddefnydd a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd ymhlith plant • Byddai hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr o bob oed, yn hytrach na phlant yn unig. Gellid ystyried bod yr effaith ar oedolion yn anghymesur o ystyried mai amcan y polisi yw cyfyngu ar ddefnydd plant o'r diodydd hyn
Cyfyngu ar lefel y caffein y gellir ei gynnwys mewn un dogn	• Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfyngu ar y defnydd ymhlith plant ac felly ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â mater lefelau uchel o ddefnydd a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd ymhlith plant • Byddai hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr o bob oed, yn hytrach na phlant yn unig. Gellid ystyried bod yr effaith ar oedolion yn anghymesur o ystyried mai amcan y polisi yw cyfyngu ar ddefnydd plant o'r diodydd hyn
Ymgyrch addysgol ar effeithiau defnyddio caffein	• Er gwaethaf labeli ar ddiodydd egni sy'n dweud nad yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu hargymell i blant, gwyddom fod plant yn dal i'w hyfed • Mae iechyd a deiet eisoes yn rhan o'r cwricwlwm ysgolion mewn gwahanol gyfnodau allweddol • Byddai'n debygol o gael effaith gyfyngedig ar ei phen ei hun, ond gallai fod yn bwysig wrth roi dulliau eraill posibl ar waith
Ardaloedd dan waharddiad o amgylch ysgolion lle y cyfyngir ar werthu diodydd egni i blant	• Gall hyn ei gwneud yn anos i blant brynu diodydd egni cyn, yn ystod neu ar ôl oriau ysgol • Mae'n bosibl y bydd plant yn dal i allu prynu diodydd egni ar eu ffordd i'r ysgol ac oddi yno, a'r tu allan i oriau ysgol • Byddai hyn yn cael effeithiau gwahaniaethol ar fusnesau, gan gyfyngu ar werthiannau mewn rhai siopau yn unig. Gallai hyn achosi canlyniadau anfwriadol sylweddol o bosibl

Costau a Manteision

Crynodeb o'r Costau

Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau gros yw £100.5m dros y cyfnod 2027-2051, neu £65.5m mewn gwerth presennol, ym mhrisiau 2025. Mae hyn yn cynnwys colledion elw i fanwerthwyr a gwneuthurwyr diodydd egni gwerth £66.6m heb eu disgowntio, neu £42.0m mewn gwerth presennol.

Mae'r model yn cynnwys enillion gwrthbwyso cyfartal i fusnesau eraill. Ar ôl i'r effeithiau hyn wrthbwyso ei gilydd, y gost net yw £34.0m heb ei disgowntio, neu £23.7m mewn gwerth presennol. Mae'n bosibl bod y cyfansymiau fymryn yn wahanol i'r symiau cyfansoddiadol am fod y cyfrifiadau'n defnyddio mewnbynnau heb eu talgrynnu tra bo'r symiau a ddangosir wedi'u talgrynnu.

Mae costau cydymffurfio trosiannol a pharhaus i fusnesau yn cyfrif am £33.4m heb eu disgowntio, neu £23.2m mewn gwerth presennol. Yr elfen fwyaf yw gwirio oedran, ar £21.3m mewn gwerth presennol, sef tua 90% o'r gost gwerth presennol net. Bydd costau gwirio oedran blynyddol yn aros yn gyson ar tua £1.25m mewn termau real drwy gydol y cyfnod arfarnu.

Cyfanswm y costau trosiannol untro i fusnesau fydd £1.45m. Y gost a bennir ar gyfer rhannu gwybodaeth ar-lein a newidiadau TG yw £0 (gweler tudalen 4). Mae'r asesiad yn rhagdybio y bydd manwerthwyr sy'n gwasanaethu Cymru, erbyn i'r cyfyngiad ar gyfer Cymru ddod i rym, wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol ar systemau ar gyfer Lloegr ac y bydd yr un systemau'n berthnasol i werthiannau yng Nghymru. Mae hyn yn dibynnu ar ofynion sy'n ddigon cyson â'i gilydd. Byddai angen asesu costau ychwanegol pe bai'r gofynion yng Nghrymu'n wahanol neu pe bai angen i fanwerthwyr wneud gwaith ar wahân ar gyfer Cymru.

Cyfanswm y costau ymgyfarwyddo a gorfodi ar gyfer gwasanaethau safonau masnach yw £0.6m heb eu disgowntio, neu £0.4m mewn gwerth presennol, gan gynnwys costau llys.

Crynodeb o'r Manteision

Mae'r model yn rhagdybio y bydd gwariant na fydd yn mynd ar ddiodydd egni mwyach yn symud i ddiodydd meddal pefriog neu nwyddau a gwasanaethau eraill. Mae'r enillion elw i fusnesau a fydd yn deillio o hynny yn gwneud cyfanswm o £66.6m heb ei ddisgowntio, neu £42.0m mewn gwerth presennol. O'r cyfanswm gwerth presennol, bydd £32.8m yn mynd i wneuthurwyr diodydd meddal pefriog a £9.2m yn mynd i fusnesau eraill. Elw a enillir yw hwn, nid gwerth llawn y gwerthiannau amgen.

Bydd yr enillion hyn yn gwrthbwyso'r elw a gollir sydd wedi'i nodi fel Costau Eraill, gan roi effaith fusnes sero net ym mhob blwyddyn. Mae hyn yn dilyn y rhagdybiaethau ynghylch gwariant ar gynhyrchion amgen a'r elw cysylltiedig; nid canlyniad a welwyd mohono ac nid yw'n golygu na fydd effaith ar fusnesau neu sectorau unigol.

Mae graddio'r manteision sy'n gysylltiedig â chalorïau yn Lloegr ar gyfer plant rhwng 0 a 15 oed yng Nghymru yn rhoi amcangyfrif canolog o £481.5m mewn gwerth presennol ym mhrisiau 2025, a senarios is ac uwch o £414.7m a £602.2m.

Ni roddir gwerth ariannol ar effeithiau sy'n gysylltiedig â chaffein ar gwsg, iechyd meddwl, addysg a llesiant.

Dim ond yr opsiwn o dan 16 oed y mae'r model presennol yn ei feintioli. Nid yw'n pennu costau na manteision ychwanegol ymestyn y cyfyngiad i bobl ifanc 16 a 17 oed. Mae rhai setiau data'n grwpio pobl ifanc 16 a 17 oed gydag oedolion. Nid yw hyn yn golygu bod yr un trothwy diogelwch caffein yn berthnasol iddyn nhw.

Gan gynnwys y fantais iechyd enghreifftiol, y gwerth presennol net yw £457.8m a'r gymhareb costau a manteision yw tua 20 (Tabl A).

10. Adolygu'r Rheoliadau ar ôl eu rhoi ar waith

Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Rheoliadau ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith, a hynny o fewn tair blynedd ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ac yn rheolaidd wedi hynny. Bydd ein hadolygiadau'n ystyried effeithiau'r polisi ar wahanol grwpiau, gan gynnwys gwneuthurwyr, manwerthwyr, cyrff gorfodi a'r defnyddwyr eu hunain. Byddant yn ystyried effeithiau bwriadedig y polisi mewn

perthynas ag atal gordewdra a gwella iechyd y cyhoedd, yn ogystal ag unrhyw effeithiau anfwriadol a all godi.

Atodiad A: Methodoleg y Sector Manwerthu

Nifer y siopau manwerthu sydd o fewn y cwmpas

Rydym wedi defnyddio cyfuniad o ddata manwerthu'r Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD), Adroddiad Siopau Lleol Cymdeithas y Siopau Cyfleustra (ACS) a data SYG ar niferoedd busnesau a gyrchwyd drwy Nomis i gyfrifo nifer y siopau sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad yng Nghymru. Mae'r holl ffigurau ar gyfer siopau a busnesau yn yr atodiad hwn yn ymwneud â 2025. Mae'r ffigurau cyflogeion yn ymwneud â 2024, sef y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael o Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth SYG ar adeg dadansoddi.

Daeth data gan yr IGD o hyd i gyfanswm o 23,651 o siopau manwerthu nwyddau groser yn y DU. Fodd bynnag, dim ond manwerthwyr a enwir sydd wedi'u cynnwys yn nifer yr IGD o siopau cyfleustra ac felly caiff y sector ei dangyfrif. Felly, defnyddiwyd data ACS, sy'n ymwneud â Phrydain Fawr, ar gyfer siopau cyfleustra. Rydym wedi cymhwyso cyfran Cymru o boblogaeth Prydain Fawr (4.70%) at nifer ACS a'i chyfran o boblogaeth y DU (4.57%) at niferoedd yr IGD, fel y gwelir yn Nhabl A1.

Tabl A1: Amcangyfrif o nifer y siopau groser yng Nghymru, yn ôl y math o siop, 2025

Y math o siop	Nifer y ffynhonnell	Cwmpas	Cyfran Cymru	Siopau yng Nghymru
Siopau cyfleustra gan gynnwys blaengyrtiau	50,486	Prydain Fawr	4.70%	2,373
Archfarchnadoedd a goruwchfarchnadoedd	6,161	Y DU	4.57%	282
Siopau disgownt	4,782	Y DU	4.57%	219
Cyfanswm siopau groser				2,873

Ffynhonnell: Adroddiad Siopau Lleol 2025 ACS, IGD (2025), amcangyfrifon poblogaeth canol 2025 SYG. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

I gyfrifo'r baich ar fusnesau bach a micro, rydym wedi grwpio'r siopau yn seiliedig ar faint y busnes y maent yn perthyn iddo, yn ôl nifer y cyflogeion. Mae Tabl A2 yn dangos y sector manwerthu nwyddau groser wedi'i rannu yn ôl maint; micro (0 i 9 cyflogai), bach (10 i 49 o gyflogeion), canolig (50 i 249 o gyflogeion) a mawr (250 neu fwy o gyflogeion).

Tabl A2: Amcangyfrif o nifer y siopau groser yng Nghymru, yn ôl y math o siop a maint y busnes, 2025

Y math o siop	Micro	Bach	Canolig	Mawr	Cyfanswm
Siopau cyfleustra gan gynnwys blaengyrtiau	1,533	840	0	0	2,373
Archfarchnadoedd a goruwchfarchnadoedd	0	0	2	279	282

Siopau disgownt	0	0	2	217	219
Cyfanswm	1,533	840	4	496	2,873

Ffynhonnell: Tabl A1. Mae'r ffordd y mae'r meintiau wedi'u rhannu yn dilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025), Tabl 71. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

Ar gyfer siopau cyfleustra, mae asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn defnyddio data ar y gofod gwerthu o fewn siopau o Adroddiad Siopau Lleol ACS, sy'n categoreiddio siopau yn seiliedig ar faint o arwynebedd llawr a neilltuir i werthu cynhyrchion, er mwyn amcangyfrif cyfran y siopau yr ystyrir eu bod yn rhai bach (35%) a micro (65%). Rydym wedi cymhwyso'r cyfrannau hyn at ein hamcangyfrif o 2,373 o siopau cyfleustra yng Nghymru, gan roi 1,533 o siopau micro ac 840 o siopau bach. Yn gyson ag asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhagdybiwn nad oes siopau cyfleustra canolig eu maint, gan fod data ACS yn dangos nad oes dim un yn yr is-sector hwn o'r farchnad.

Rhagdybiwn hefyd fod archfarchnadoedd, goruwchfarchnadoedd a siopau disgownt yng Nghymru yn rhan o fusnesau canolig neu fawr. Rhagdybiodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod busnesau sydd â mwy na 25 o siopau'n rhai mawr (yn seiliedig ar fod â 10 cyflogai ym mhob siop), ac edrychodd ar fanylion busnesau llai ar wefan Tŷ'r Cwmnïau er mwyn cadarnhau eu maint. Arweiniodd hyn at roi ychydig o dan 1% o archfarchnadoedd, goruwchfarchnadoedd a siopau disgownt yn y categori busnesau canolig eu maint. Rydym wedi cymhwyso'r un cyfrannau at Gymru. Felly, amcangyfrifir bod dwy archfarchnad a goruwchfarchnad a dwy siop ddisgownt yn perthyn i fusnesau canolig eu maint, a bod y 279 a'r 217 o siopau sy'n weddill yn perthyn i fusnesau mawr. O ystyried y niferoedd bach sydd dan sylw, nid ydym wedi edrych ar fanylion busnesau yng Nghymru ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

Yn ychwanegol at y siopau manwerthu nwyddau groser a amcangyfrifir ar sail data ACS ac IGD, byddai'r rheoliadau hyn hefyd yn effeithio ar unrhyw siopau manwerthu arbenigol yng Nghymru sy'n gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Rydym wedi defnyddio Niferoedd Busnesau yn y DU 2025, sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer yr unedau lleol ym mhob sector diwydiant, i amcangyfrif nifer y siopau manwerthu arbenigol ychwanegol sydd o fewn y cwmpas. Mae'r data hyn ar gael ar gyfer Cymru, felly rydym wedi cyfrif unedau lleol yng Nghymru yn uniongyrchol yn hytrach na chymhwyso cyfran o'r boblogaeth.

Rydym wedi defnyddio'r un codau SIC â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i nodi grwpiau manwerthwyr arbenigol a all fod yn gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Rhagdybiwn fod data ACS ac IGD yn cynnwys siopau â chodau SIC 4711, sef manwerthu mewn siopau nad ydynt yn siopau arbenigol ac sy'n gwerthu bwyd, diodydd neu dybaco yn bennaf, a 473, sef manwerthu tanwydd modurol mewn siopau arbenigol. Felly, nid yw'r 2,430 a'r 255 o unedau lleol yng Nghymru sydd â'r codau hyn wedi cael eu hychwanegu, er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith. Mae'r codau SIC eraill wedi'u nodi yn Nhabl A3. Rydym yn ansicr ynglŷn â faint o fusnesau yn rhai o'r diwydiannau hyn sy'n gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Felly, gan ddilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym wedi lleihau nifer yr unedau lleol 50% ar gyfer pedwar o'r pum cod i adlewyrchu'r ansicrwydd hwn. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o 630 o siopau manwerthu arbenigol yng Nghymru, o blith 1,115 o unedau lleol.

Tabl A3: Codau SIC manwerthu arbenigol sydd o fewn y cwmpas, ac unedau lleol yng Nghymru, 2025

SIC 2007	Disgrifiad	Pwysoliad	Unedau lleol yng Nghymru	Wedi'u cyfrif o fewn y cwmpas
47240	Manwerthu bara, cacennau a melysion mewn siopau arbenigol	50%	420	210
47250	Manwerthu diodydd mewn siopau arbenigol	100%	145	145
47260	Manwerthu cynhyrchion tybaco mewn siopau arbenigol	50%	105	52.5
47290	Manwerthu bwydydd eraill mewn siopau arbenigol	50%	235	117.5
47620	Manwerthu papurau newydd a deunydd ysgrifennu mewn siopau arbenigol	50%	210	105
Cyfanswm			1,115	630

Ffynhonnell: Niferoedd Busnesau yn y DU 2025 (unedau lleol), drwy Nomis. Mae'r pwysoliadau'n dilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025), Tabl 72.

Rydym wedi cymhwyso pwysoliadau tuag i lawr at rai sectorau er mwyn rhoi amcangyfrifon o gyfanswm nifer y siopau manwerthu arbenigol sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad, yn ôl maint cyflogaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl A4.

Tabl A4: Amcangyfrif o nifer y siopau arbenigol yng Nghymru, yn ôl band maint cyflogaeth, 2025

Band maint cyflogaeth	Siopau
Micro	505
Bach	125
Canolig	0
Mawr	0
Cyfanswm	630

Ffynhonnell: SYG, Niferoedd Busnesau yn y DU 2025 (unedau lleol yn ôl band maint cyflogaeth), drwy Nomis. Mae'r bandiau maint yn cyfeirio at nifer y cyflogeion ar bob safle.

Gyda'i gilydd, mae'r cyfrifiadau hyn yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm nifer y siopau manwerthu yng Nghymru sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad (3,503 o siopau). Mae Tabl A5 yn nodi sut

mae'r siopau hyn wedi'u rhannu yn ôl maint y busnes, yn seiliedig ar nifer y cyflogeion (micro 0-9, bach ac ati).

Tabl A5: Amcangyfrif o gyfanswm nifer y siopau sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru, yn ôl y math o siop a maint y busnes, 2025

Y math o siop	Micro	Bach	Canolig	Mawr	Cyfanswm
Siopau cyfleustra gan gynnwys blaengyrtiau	1,533	840	0	0	2,373
Archfarchnadoedd a goruwchfarchnadoedd	0	0	2	279	282
Siopau disgownt	0	0	2	217	219
Arbenigol	505	125	0	0	630
Cyfanswm	2,038	965	4	496	3,503

Ffynhonnell: Tablau A2 ac A4. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

Nifer y busnesau sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad

I amcangyfrif nifer y busnesau manwerthu y mae'r siopau yng Nghymru'n perthyn iddynt, gwnaethom ddefnyddio'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer y gwahanol fusnesau ym mhob sector diwydiant. Rydym wedi defnyddio nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Caiff busnesau eu cofnodi lle y maent wedi'u cofrestru, felly caiff manwerthwyr sydd â siopau yng Nghymru ond sydd wedi'u cofrestru mewn rhan arall o'r DU, gan gynnwys y rhan fwyaf o gadwyni archfarchnadoedd ar lefel y DU, eu cyfrif yn Lloegr yn hytrach na Chymru.

Gwnaethom ddefnyddio'r un codau SIC â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i nodi diwydiannau perthnasol a chyfrifo nifer y busnesau sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad. Mae 2,310 o fusnesau wedi'u cofrestru yng Nghymru yn y diwydiannau hyn. Rydym yn ansicr ynglŷn â faint o fusnesau mewn rhai diwydiannau sy'n gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Felly, gan ddilyn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym wedi lleihau nifer y busnesau 50% ar gyfer pedwar o'r saith cod i adlewyrchu'r ansicrwydd hwn. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o 2,045 o fusnesau sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru (Tabl A6).

Tabl A6: Codau SIC busnesau manwerthu sydd o fewn y cwmpas, a busnesau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, 2025

SIC 2007	Disgrifiad	Pwysoliad	Busnesau yng Nghymru	Wedi'u cyfrif o fewn y cwmpas
47110	Manwerthu mewn siopau nad ydynt yn arbenigol ac sy'n	100%	1,510	1,510

	gwerthu bwyd, diodydd neu dybaco yn bennaf			
47300	Manwerthu tanwydd modurol mewn siopau arbenigol	100%	140	140
47240	Manwerthu bara, cacennau a melysion mewn siopau arbenigol	50%	155	77.5
47250	Manwerthu diodydd mewn siopau arbenigol	100%	130	130
47260	Manwerthu cynhyrchion tybaco mewn siopau arbenigol	50%	90	45
47290	Manwerthu bwydydd eraill mewn siopau arbenigol	50%	185	92.5
47620	Manwerthu papurau newydd a deunydd ysgrifennu mewn siopau arbenigol	50%	100	50
Cyfanswm			2,310	2,045

Ffynhonnell: SYG, Niferoedd Busnesau yn y DU 2025 (busnesau), drwy Nomis. Caiff y niferoedd eu talgrynnu i'r 5 agosaf gan SYG.

Mae Tabl A7 yn dangos y busnesau hyn yn ôl band maint.

Tabl A7: Amcangyfrif o nifer y busnesau manwerthu sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru, yn ôl maint y busnes, 2025

Maint y busnes	**Cyflogeion**	**Busnesau**
Micro	0 i 9	1,790
Bach	10 i 49	238
Canolig	50 i 249	13
Mawr	250+	5
Cyfanswm		**2,045**

Ffynhonnell: Tabl A6. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

Nifer y busnesau sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein a manwerthwyr sy'n gwerthu ar-lein yn unig

Rydym wedi amcangyfrif nifer y manwerthwyr yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein yn ôl maint y busnes.

Yn gyson ag asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym wedi rhagdybio y byddai 60% o fusnesau canolig a mawr yn cynnig gwasanaeth ar-lein. Seiliodd yr Adran Iechyd a

Gofal Cymdeithasol hyn ar ei gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector manwerthu, a nododd nad yw'n amcangyfrif pendant sy'n cynrychioli'r sector cyfan. Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth yng Nghymru sy'n awgrymu cyfran wahanol, felly rydym wedi cadw'r rhagdybiaeth hon.

Rhagdybiwn y byddai 47% o fusnesau bach a micro yn cynnig gwasanaeth ar-lein. Mae hyn yn seiliedig ar Adroddiad Siopau Lleol 2025 Cymdeithas y Siopau Cyfleustra (ACS), sy'n amcangyfrif bod 47% o siopau cyfleustra annibynnol yn darparu gwasanaeth danfon i'r cartref. Defnyddiodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y ffigur cyfatebol o adroddiad 2024, sef 34%, ond mae'r sector yn tyfu'n sylweddol. Mae cymhwyso'r cyfrannau hyn yn rhoi amcangyfrif o 963 o fusnesau yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein, a microfusnesau yw 841 o'r busnesau hynny. Yn unol â rhagdybiaethau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nid yw microfusnesau wedi'u cynnwys yn nifer y busnesau y byddai angen iddynt ddiweddaru eu systemau TG. Mae'n debygol bod cryn dipyn o'r gwasanaethau danfon i'r cartref a gynigir gan ficrofusnesau yn cael eu darparu drwy lwyfannau danfon trydydd parti, sy'n rheoli'r prosesau archebu a gwiriadau oedran eu hunain. Mae hyn yn gadael 122 o fusnesau sydd â siopau ffisegol yng Nghymru y byddai angen iddynt ddiweddaru eu systemau TG. Nid oes cost wedi'i chynnwys ar gyfer y newidiadau hyn gan ein bod yn rhagdybio y bydd systemau a gaiff eu newid ar gyfer Lloegr hefyd yn berthnasol i werthiannau yng Nghymru (tudalen 4).

Nid oes data ar gael ar nifer y manwerthwyr sy'n gwerthu ar-lein yn unig. Daeth gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o hyd i ddau fanwerthwr mawr sy'n gwerthu ar-lein yn unig, a rhagdybiwn fod y ddau'n gwerthu i gwsmeriaid yng Nghymru. Nid yw'r naill na'r llall wedi'i gofrestru yng Nghymru, felly nid ydynt wedi'u cyfrif fel busnesau yng Nghymru. Rhagdybiwn fod eu gwaith paratoi'n cael ei wneud unwaith ar lefel y DU, felly nid oes cost ar gyfer Cymru wedi cael ei chynnwys (tudalen 4). Fel y noda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n bosibl bod dau fanwerthwr yn amcangyfrif rhy isel.

Tabl A8: Amcangyfrif o nifer y busnesau manwerthu yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein, yn ôl maint y busnes, 2025

Maint y busnes	**Busnesau**	**Cyfran sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein**	**Busnesau sy'n cynnig gwasanaeth ar-lein**
Micro	1,790	47%	841
Bach	238	47%	112
Canolig	13	60%	8
Mawr	5	60%	3
Cyfanswm	**2,045**		**963**
Manwerthwyr ar-lein yn unig			2

Ffynhonnell: Tabl A7; Adroddiad Siopau Lleol 2025 ACS; Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025), Tabl 77. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

Nifer y Siopau sydd Eisoes â Gwaharddiad

Yn ôl y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy Gonsortiwm Manwerthu Prydain, mae sawl manwerthwr mawr eisoes yn gweithredu gwaharddiad gwirfoddol ar werthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed. Ymhlith y rhain mae Tesco, Sainsbury's, Waitrose, Asda, Morrisons, The Co-operative, Lidl, Aldi, Booths, BP, Iceland, M&S a phob Cymdeithas Gydweithredol. Fel yn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nid yw'r ffigurau yn yr adran hon yn cynnwys unrhyw fanwerthwyr eraill a all fod wedi cyflwyno gwaharddiad gwirfoddol, na manwerthwyr nad ydynt yn fanwerthwyr nwyddau groser sydd â gwaharddiad gwirfoddol, megis Boots a WH Smith. Mae ffigurau'r Adran yn awgrymu bod y manwerthwyr hyn yn gweithredu 17,441 o siopau ledled y DU. Drwy gymhwyso cyfran Cymru o boblogaeth y DU (4.57%), amcangyfrifwn fod 797 o siopau yng Nghymru yn perthyn i fanwerthwyr sydd â gwaharddiad gwirfoddol hysbys. Mae hyn yn defnyddio nifer y siopau yn 2023 o asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nad yw wedi cael ei ddiweddaru.

Mae llawer o siopau cyfleustra hefyd yn gweithredu gwaharddiadau gwirfoddol. Amcangyfrifodd Cymdeithas y Siopau Cyfleustra (ACS) fod 79% o siopau cyfleustra eisoes wedi rhoi gwaharddiad gwirfoddol ar waith, yn seiliedig ar ei arolwg 'Voice of Local Shop' yn 2022. Nid ydym wedi dod o hyd i ffigur ar gyfer Cymru, felly rydym yn cymhwyso'r un rhagdybiaeth at Gymru. Drwy gyfuno cyfran y manwerthwyr mawr a siopau cyfleustra sydd â gwaharddiadau gwirfoddol, amcangyfrifwn fod gan 84% o'r holl siopau yng Nghymru (2,935 allan o 3,503) waharddiad gwirfoddol ar hyn o bryd. Mae'r gyfran hon yr un faint ag amcangyfrif yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Lloegr.

Tabl A9: Amcangyfrif o nifer y siopau a busnesau yng Nghymru sydd â gwaharddiad gwirfoddol, 2025

	Siopau	Busnesau	Manwerthwyr ar-lein yn unig
Cyfanswm sydd o fewn y cwmpas	3,503	2,045	2
Gwaharddiad gwirfoddol hysbys	797	1	1
Gwaharddiad gwirfoddol a ragdybir (79% o'r gweddill)	2,138	1,615	0
Cyfanswm sydd â gwaharddiad gwirfoddol	2,935	1,616	1
Cyfran sydd â gwaharddiad gwirfoddol	83.8%	79.0%	50%

Ffynhonnell: Tablau A5 ac A7; Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025), Tabl 78.

Cafodd y manwerthwyr mawr a nodir uchod hefyd eu cyfrif fel busnesau sydd â gwaharddiad gwirfoddol (heb gynnwys Boots na WH Smith). O'r rhain, dim ond Iceland sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae'r gweddill wedi'u cofrestru yn Lloegr, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn nifer y busnesau sydd yng Nghymru. Unwaith eto, rhagdybiwn fod 79% o'r 2,044 o fusnesau sy'n weddill yng Nghymru yn gweithredu gwaharddiad gwirfoddol. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o 1,616 o fusnesau (79%) sydd â gwaharddiad gwirfoddol.

O'r ddau fanwerthwr ar-lein yn unig a ganfuwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gan un waharddiad gwirfoddol ar werthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein, ond nid yw hynny wedi'i nodi ar gyfer y llall. Gan ddilyn asesiad yr Adran, rhagdybiwn fod 50% o fanwerthwyr ar-lein yn unig yn gweithredu gwaharddiad gwirfoddol. Mae cyfanswm nifer y siopau a busnesau yng Nghymru yr amcangyfrifwn fod ganddynt waharddiad gwirfoddol wedi'i nodi yn Nhabl A9.

Tabl A10: Crynodeb o'r siopau a busnesau manwerthu sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru, yn ôl maint y busnes, 2025

Maint y busnes	Siopau	Siopau sydd â gwaharddiad gwirfoddol	Busnesau	Busnesau sydd â gwaharddiad gwirfoddol	Busnesau y mae angen iddynt wneud newidiadau TG ar-lein
Micro	2,038	1,707	1,790	1,414	Heb eu cynnwys
Bach	965	808	238	188	112
Canolig	4	4	13	10	8
Mawr	496	415	5	4	3
Cyfanswm	3,503	2,935	2,045	1,616	122

Ffynhonnell: Tablau A5 i A9. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm cywir.

Nifer y cyflogeion a gyflogir gan fusnesau sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad

Cyfrifodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfanswm nifer y cyflogeion yn y sector manwerthu drwy luosi nifer y busnesau ym mhob band maint cyflogaeth ar y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau â nifer cyfartalog rhagdybiedig o gyflogeion fesul busnes. Rydym wedi dilyn dull gwahanol ar gyfer Cymru, am y rhesymau a nodir isod.

Defnyddiodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ganolbwynt pob band maint cyflogaeth fel cyfartaledd ar gyfer y band hwnnw, ar wahân i'r mwyaf (1000+). Ar gyfer busnesau sydd â 1000+ o gyflogeion, defnyddiodd yr Adran nifer cyfartalog cyflogeion y prif fanwerthwyr nwyddau groser yn adroddiad Kantar ar gyfrannau o'r farchnad groser, sef 82,787 fesul busnes. Cafodd y cyfartaledd hwn ei gymhwyso at bob un o'r 30 o fusnesau yn y band hwnnw, gan roi 2,488,698 o gyflogeion, neu 88% o'r cyfanswm yn asesiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef 2,813,871. Mae'n debygol bod llawer o'r busnesau yn y band 1000+ yn llawer llai na'r siopau groser mawr, felly mae'n debygol bod y dull hwn yn rhoi amcangyfrif llawer rhy uchel o gyflogaeth. Mae cyfanswm yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol tua thair gwaith yn fwy na nifer y cyflogeion a gofnodir yn Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth ar gyfer yr un diwydiannau yn Lloegr (912,525). Mae hefyd yn fwy na ffigur yr Arolwg ar gyfer y sector manwerthu cyfan yn Lloegr (2.26 miliwn).

Yn lle hynny, defnyddiwn yr Arolwg, sy'n cofnodi nifer y cyflogeion yn ôl diwydiant a lleoliad. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o'r Arolwg ar adeg dadansoddi (mis Hydref 2026) yn

ymwneud â 2024, a data dros dro ydynt. Felly, mae'r niferoedd cyflogeion flwyddyn ar ei hôl hi o gymharu â'r niferoedd siopau a busnesau o 2025 a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r atodiad hwn. Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth yw'r unig ffynhonnell swyddogol o niferoedd cyflogeion yn ôl diwydiant manwl ar gyfer Cymru, felly rydym wedi'i ddefnyddio er gwaethaf y bwlch hwn. Ni fyddai hyd yn oed newid sylweddol mewn cyflogaeth rhwng 2024 a 2025 yn cau'r bwlch rhwng ein hamcangyfrif a ffigur yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd wedi'i raddio yn ôl y boblogaeth ac a nodir isod.

Rydym wedi defnyddio'r un codau SIC â'r rhai ar gyfer busnesau, gan gymhwyso'r un pwysoliad 50% tuag i lawr. Mae Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth yn cyfrif cyflogeion lle y maent yn gweithio, felly caiff staff manwerthwyr ar lefel y DU sy'n gweithio mewn canghennau yng Nghymru eu cynnwys, er bod y busnesau hynny wedi'u cofrestru yn Lloegr.

Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o 60,975 o gyflogeion sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru (Tabl A11). Mewn cymhariaeth â hynny, byddai graddio ffigur yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Lloegr yn ôl poblogaeth yn rhoi 151,858. Mae Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth yn cofnodi 7,000 o gyflogeion gorsafoedd petrol yng Nghymru, sef 18% o gyfanswm Cymru a Lloegr, o gymharu ag 8% o safleoedd gorsafoedd petrol. Os yw'r ffigur hwn wedi'i amcangyfrif yn rhy uchel, byddai cyfanswm Cymru yn agosach at 57,000. Ffigurau dros dro yw rhai Arolwg 2024.

Tabl A11: Amcangyfrif o nifer y cyflogeion manwerthu sydd o fewn y cwmpas yng Nghymru, yn ôl cod SIC, 2024

SIC 2007	Disgrifiad	Pwysoliad	Cyflogeion yng Nghymru	Wedi'u cyfrif o fewn y cwmpas
47110	Siopau nad ydynt yn siopau arbenigol ac sy'n gwerthu bwyd yn bennaf	100%	50,000	50,000
47300	Siopau gorsafoedd petrol	100%	7,000	7,000
47240	Bara, cacennau a melysion	50%	4,000	2,000
47250	Diodydd	100%	700	700
47260	Cynhyrchion tybaco	50%	400	200
47290	Bwydydd eraill	50%	1,250	625
47620	Papurau newydd a deunydd ysgrifennu	50%	900	450
Cyfanswm			64,250	60,975

Ffynhonnell: SYG, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2024 (dros dro), drwy Nomis.

Mae Tabl A12 yn cymharu'r hyn a fyddai'r ffigurau ar sail graddio yn ôl y boblogaeth â ffynonellau data penodol ar gyfer Cymru. Gellir gweld bod cyfatebiaeth dda heblaw ar gyfer staff a busnesau manwerthu y mae angen iddynt wneud newidiadau TG ar-lein. Rydym wedi

defnyddio data penodol ar gyfer Cymru mewn perthynas â staff a busnesau y mae angen iddynt wneud newidiadau TG ar-lein.

Tabl A12: Ffigurau manwerthu a ddefnyddir yn y model costau ar gyfer Cymru, wedi'u graddio yn ôl y boblogaeth a'u cymharu â data ar gyfer Cymru

Ffigur	Ffigur yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i raddio yn ôl y boblogaeth ar gyfer Cymru	Data Cymru (yr atodiad hwn)	Newid
Busnesau manwerthu sydd o fewn y cwmpas	2,102	2,045	-57
Siopau manwerthu sydd o fewn y cwmpas	3,358	3,503	+145
Staff manwerthu sydd o fewn y cwmpas	151,858	60,975	-90,883
Busnesau y mae angen iddynt wneud newidiadau TG ar-lein	719	122	-597
Busnesau sydd â gwaharddiad gwirfoddol	79%	79.0%	Dim newid
Siopau sydd â gwaharddiad gwirfoddol	84%	83.8%	-0.2 pwynt

Ffynhonnell: Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025), Tablau 70 i 81, wedi'u graddio yn ôl poblogaeth Cymru yn berthynol i Loegr (5.4%); Tablau A1 i A11. Mae'r ffigurau staff yn ymwneud â 2024. Mae'r holl ffigurau eraill ar gyfer Cymru yn ymwneud â 2025.

Atodiad B: Data Nielsen ar Werthiannau Diodydd Egni

Y sail resymegol dros y polisi hwn yw bod llawer o ddiodydd egni'n cael eu gwerthu i bobl ifanc mewn siopau llai, e.e. siopau cyfleustra, er gwaethaf gwaharddiad gwirfoddol ar werthiannau o'r fath gan fanwerthwyr mawr.

Caiff diodydd egni eu hyfed wrth fynd o le i le fel arfer, felly byddai'n ddisgwyliedig bod y gwerthiannau hyn gan siopau cyfleustra yn uwch na'r mynegai. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y ffigurau gwerthiant hefyd yn cynrychioli'r ffaith bod manwerthwyr mwy wedi rhoi'r gwaharddiad gwirfoddol ar waith.

Mae Tablau B1 a B2 yn dangos gwerthoedd gwerthiant yn ôl dull gwerthu (y math o fanwerthwr) ar gyfer diodydd egni a chyfanswm y farchnad nwyddau groser ar gyfer Prydain Fawr a Chymru. Gwerth gwerthiannau diodydd egni Prydain Fawr oedd £899m yn y 52 wythnos hyd at 13 Mehefin 2026. Mae hyn yn golygu bod modd cyfrifo faint yn uwch neu'n is na'r mynegai yw gwerthiannau diodydd egni yn ôl dull gwerthu. Gellir gweld bod y siopau groser symbol 7.5 gwaith yn uwch na'r mynegai ar gyfer gwerthiannau diodydd egni ym Mhrydain Fawr yn berthynol i gyfanswm gwerthiannau'r farchnad nwyddau groser. Mae dulliau gwerthu eraill 2.5 gwaith yn uwch na'r mynegai. Ar gyfer Cymru, mae'r ffigurau'n llai sylweddol, gan mai dim ond siopau groser symbol sy'n llawer uwch na'r mynegai, sef chwe gwaith yn fwy yn berthynol i gyfanswm y farchnad nwyddau groser. Gwerth blynyddol gwerthiannau diodydd egni yn y siopau hyn yn y flwyddyn ddiweddaraf yw £14.4m.

Tabl B1 Gwerthiannau Manwerthu Diodydd Egni ym Mhrydain Fawr o Gymharu â Chyfanswm Gwerthiannau'r Farchnad Nwyddau Groser (52 wythnos hyd at 13 Mehefin 2026)

Dull Gwerthu	**Gwerth Diodydd Egni (£)**	**Cyfran y Dull Gwerthu Diodydd Egni (%)**	**Cyfanswm Gwerth y Farchnad (£)**	**Cyfran y Dull Gwerthu o'r Farchnad (%)**	**Uwch neu Is na'r Mynegai (100 = cyfartaledd)**
Busnesau Groser Mawr a Siopau Disgownt	£508,120,200	56.5%	£127,547,048,717	84.8%	**67**
Siopau Groser Symbol	£228,832,054	25.4%	£5,078,159,562	3.4%	**754**
Dull Gwerthu Arall	£134,013,221	14.9%	£8,921,417,907	5.9%	**251**
Siopau Bargeinion	£26,743,471	3.0%	£4,502,072,615	3.0%	**99**
Fferyllfeydd/Siopau Drygist	£1,641,334	0.2%	£3,790,099,633	2.5%	**7**

Siopau Anifeiliaid Anwes	£2,625	0.0%	£567,498,787	0.4%	**0**
Cyfanswm Prydain Fawr	**£899,352,905**	**100.0%**	**£150,406,297,220**	**100.0%**	

Ffynhonnell: Hawlfraint © 2026 Nielsen Consumer LLC. Cedwir Pob Hawl. Cyrchwyd drwy Raglen Mewnwelediad Llywodraeth Cymru.

Tabl B2 Gwerthiannau Manwerthu Diodydd Egni yng Nghymru o Gymharu â Chyfanswm Gwerthiannau Siopau Groser (52 wythnos hyd at 13 Mehefin 2026)

Dull Gwerthu	Gwerth Diodydd Egni (£)	Cyfran y Dull Gwerthu Diodydd Egni (%)	Cyfanswm Gwerth y Farchnad (£)	Cyfran y Dull Gwerthu o'r Farchnad (%)	Uwch neu Is na'r Mynegai (100 = cyfartaledd)
Busnesau Groser Mawr a Siopau Disgownt	£30,296,968	61.5%	£6,522,216,706	83.0%	**74**
Siopau Groser Symbol	£14,376,805	29.2%	£383,014,645	4.9%	**598**
Dull Gwerthu Arall	£2,494,387	5.1%	£424,091,466	5.4%	**94**
Siopau Bargeinion	£2,106,038	4.3%	£331,959,500	4.2%	**101**
Fferyllfeydd/Siopau Drygist	£10,933	0.0%	£167,937,967	2.1%	**1**
Siopau Anifeiliaid Anwes	-	-	£29,053,636	0.4%	**-**
Cyfanswm Cymru	**£49,285,132**	**100.0%**	**£7,858,273,920**	**100.0%**	

Ffynhonnell: Hawlfraint © 2026 Nielsen Consumer LLC. Cedwir Pob Hawl. Cyrchwyd drwy Raglen Mewnwelediad Llywodraeth Cymru.

Mae Tabl B3 yn dangos bod Cymru fymryn yn uwch na'r mynegai ar gyfer diodydd egni, gyda gwerth manwerthu o 5.5% yn berthynol i 5.2% o gyfanswm marchnad nwyddau groser Prydain Fawr.

Tabl B3 Cymru o Gymharu â Phrydain Fawr fel % o Werthiannau Diodydd Egni a Chyfanswm y Farchnad Nwyddau Groser

	Gwerth Diodydd Egni (£)	Cyfanswm Gwerth y Farchnad (£)
Cymru fel % o Brydain Fawr	5.5%	5.2%

Ffynhonnell: Yn deillio o Nielsen. Hawlfraint © 2026 Nielsen Consumer LLC. Cedwir Pob Hawl. Cyrchwyd drwy Raglen Mewnwelediad Llywodraeth Cymru.

Nid oes data penodol ar gael ar gyfer gwerthiannau diodydd egni i blant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan y Rhaglen Mewnwelediad ar ran Adran Iechyd y Cyhoedd yn dangos bod diodydd egni'n gategori y mae llawer o alw amdano ymhlith defnyddwyr meddyginiaethau GLP-1 sy'n chwilio am ffynonellau egni hawdd wrth i'w harchwaeth leihau. Amcangyfrifir bod 16% o aelwydydd yng Nghymru (11% ym Mhrydain Fawr) yn defnyddio meddyginiaethau GLP-1. Mae'r gwerthiannau diodydd egni diweddaraf yng Nghymru yn dangos cynnydd o 8% o un flwyddyn i'r llall.

Ffigur B1 Newid yn y galw am wahanol gategorïau ymhlith defnyddwyr meddyginiaethau GLP-1 ym Mhrydain Fawr (mae darlun tebyg i'w weld yng Nghymru)

